Dŵr Cymru
Welsh Water

# Chwistrellwyr tân domestig

Ein canllaw i reoleiddio



dwrcymru.com

WWDEV0001

Ym mis Chwefror 2011, rhoddodd Llywodraeth Cymru Fesur Diogelwch Tân (Cymru) 2011 ar waith, oedd yn cyflwyno'n raddol gofyniad hanfodol i osod systemau mygu tân mewn eiddo newydd neu wedi eu trosi. Ers mis Ebrill 2014, mae'r rheoliad wedi bod mewn grym ar gyfer eiddo risg uchel fel cartrefi gofal, neuaddau preswyl newydd neu wedi eu trosi ar gyfer myfyrwyr, tai llety, rhai hostelau, ac ers Ionawr 2016, pob tŷ a fflat newydd ac sy'n cael eu trosi.

CAM 1


# Dylunio eich system

Wrth ddylunio eich system chwistrellu tân, mae yna godau ymarfer allweddol y mae angen eu cadw mewn cof.

Rhaid iddi gael ei dylunio, ei gosod a'i phrofi yn unol â BS 9251:2014 (Systemau Chwistrellu Tân ar gyfer Eiddo Domestig a Phreswyl - Cod Ymarfer) neu BS 8458:2015 (Systemau Sefydlog i Amddiffyn Rhag Tân - Systemau Niwlo Dŵr Preswyl a Domestig - Cod Ymarfer ar gyfer Dylunio a Gosod). Wrth wneud hyn, mae angen i chi sicrhau eich bod chi'n ystyried y pwysedd a gollir rhwng y brif bibell gyfredol a'r eiddo ei hun.

Nid ydym yn dylunio systemau chwistrellu tân domestig, felly mater i chi yw dylunio'ch system, eich hun. Rhaid i hyn gael ei gyflawni gan berson sy'n gymwys ac yn hyfedr i gyflawni'r gwaith yn ddiogel.

Nid ydym yn asesu effeithlonrwydd, priodoldeb na chydymffurfiaeth systemau chwistrellu tân mewn perthynas ag unrhyw Reoliadau, Safonau Prydeinig na Chodau Ymarfer o ran Rheoliadau Adeiladu ychwaith.






CAM 2

# Ein rôl

Ein rôl statudol yw darparu cyflenwadau dŵr at ddefnydd domestig, fel yfed, ymolchi neu lanhau yn bennaf. Mae gofyniad arnom i ni ddarparu pwysedd gweithredol o 1.5 Bar o leiaf wrth y brif bibell, a llwyth o 10 metr a llif o 9 litr/mun o leiaf wrth y blwch ffin at ddefnydd domestig.

Hyd yn oed gyda'r gofynion hyn, ni ellir gwarantu y bydd cyflenwad dŵr ar gael bob amser o ystyried y problemau gweithredol sy'n gallu codi fel byrstiau mewn prif bibellau dŵr neu'r angen am ddatgysylltu'r rhwydwaith dŵr am gyfnodau byr er mwyn cyflawni gwaith hanfodol yn ddiogel.



### Eiddo amlddeiliadaeth (fel rhandai a fflatiau)

Yn dibynnu ar osodiad eich adeiladau, mae yna nifer o wahanol opsiynau y gallwch eu dewis wrth ddylunio eich system chwistrellwr tân ar gyfer eiddo amlddeiliadaeth.

Mae hi'n bwysig nodi, os oes angen cysylltiad cyflenwi dŵr arnoch ar gyfer system chwistrellu tân bwrpasol neu system dŵr domestig/chwistrellwr tân gyfunol sy'n fwy na 63mm, mae angen i chi ddewis y 'cysylltiad diamedr mawr a chwistrellwr tân' wrth lenwi ein ffurflen gais am gysylltiad dŵr newydd.



### Eiddo sengl

Ar gyfer eiddo sengl newydd neu wedi ei adnewyddu, rydyn ni'n darparu cysylltiad 25mm safonol â mesurydd mecanyddol. Gallwn ddarparu cysylltiad 32mm mwy â mesurydd electro-bwls ar gais y cwsmer hefyd. Dyna yw'r opsiwn nodweddiadol a ddewisir lle bo dylunydd y chwistrellwr tân wedi cynghori eich bod chi'n gosod system chwistrellu sy'n cael ei fwydo'n uniongyrchol o'r brif bibell. Os gofynnwch chi am gysylltiad mwy fel hyn, byddwn ni'n darparu pibell gyswllt polyethylen 32mm o'r brif bibell ddŵr hyd y blwch ffin (mae blychau ffin ar y llwybr cyhoeddus fel rheol, a dyna fydd lleoliad eich mesurydd dŵr yn aml hefyd).

Mae'r blwch ffin yn cynnwys mesurydd ar y llinell sy'n cynnig llif uchaf o $5.0m^3/h$ (lle mae'r rhwydwaith yn caniatáu hynny). Rhaid i ddyluniad y system chwistrellu tân ystyried y llwyth a gollir a newidiadau o ran pwysedd rhwng y blwch ffin a'r system sy'n cyflenwi'r chwistrellwr tân yn gyffredinol er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r safonau angenrheidiol.



### Prif bibellau tân pwrpasol ar gyfer dau eiddo neu ragor


Os oes arnoch angen cysylltiad pwrpasol â phrif bibell dân ar gyfer dau eiddo neu ragor, byddwn ni'n darparu cyflenwad heb fesurydd ar eich cyfer. Bydd ein peirianwyr yn dylunio ac yn gosod y cysylltiad newydd i fodloni eich anghenion penodol. Cyfrifoldeb eich dylunydd yw'r pibellau a'r ffitiadau eraill sydd eu hangen ar gyfer y system chwistrellu tân, a dylech wneud trefniadau i'w cynnal, profi ac adnewyddu yn y dyfodol.

CAM 3

# Gosod a phrofi eich system

Rhaid i'ch holl bibellwaith a ffitiadau gydymffurfio â Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999, a byddwn ni'n archwilio'r system er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio. Nid yw'r archwiliad yma o gydymffurfiaeth yn ymwneud â bodloni'r gofynion o ran perfformiad chwistrellwyr tân am fod hynny y tu hwnt i gwmpas ein cyfrifoldeb a'n hyfedredd.

Yn nhermau profi, dylech gyflawni trefn brofi gydnabyddedig fel y mae BS 9251:2014 yn ei phennu, gan ddefnyddio offer profi addas sydd wedi ei galibro.




## Pethau i'w cadw mewn cof

### Ni ellir gwarantu pwysedd ein dŵr

Ni all Dŵr Cymru warantu cyflenwad dŵr na phwysedd na llif penodol yn y system dosbarthu dŵr oherwydd amrywiaeth o amgylchiadau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth (er enghraifft, gallai galw mawr gan gwsmeriaid, byrstiau neu ollyngiadau ar brif bibellau/gwasanaethau a phibellau cyflenwi preifat achosi pwysedd/llif isel neu sy'n is am gyfnod).

Mae rhwydweithiau cyflenwi dŵr yn amodol ar bwysedd gweithredol amrywiol. Rydyn ni'n gweithio'n galed i gyflawni pwysedd gweithredol o 1.5 Bar o leiaf, a chyfradd llif o 9 litr/mun o leiaf yn unol â gofynion y Lefelau Gwasanaeth rheoliadol.

Gallwn ddarparu syniad o'r pwysedd gweithredol nodweddiadol yn ardal y datblygiad ar gais. Mae hi'n werth cofio ein bod ni'n cadw'r hawl i ail-gyflunio'r rhwydwaith dŵr a'i bwysau gweithredol unrhyw bryd yn amodol ar ofynion rheoliadol y Lefel Gwasanaeth, a hynny heb roi gwybod i chi ymlaen llaw.

Dyma rai o'r ffactorau y mae angen i ddylunydd eich chwistrellwr tân eu hystyried wrth ddylunio system i fodloni'r gofynion a chydymffurfio â'u hamrywiol ddyletswyddau Iechyd a Diogelwch.

### Ni chodir tâl am ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion diffodd tân

Nid ydym ni'n codi tâl am unrhyw ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio gan chwistrellwyr tân domestig at ddibenion diffodd tân. Yn hytrach, byddwn ni'n cynnig ad-daliad am unrhyw ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion diffodd tân. Ni chaiff unrhyw gysylltiadau cyflenwi dŵr ar gyfer prif bibellau tân sy'n gwasanaethu dau eiddo neu ragor eu mesur at ddibenion bilio, heblaw lle canfyddir defnydd anghyfreithlon.



# Cwestiynau cyffredin

**C.** A gaf i ymgorffori pwmp preifat i'r system chwistrellu tân er mwyn rhoi hwb i bwysedd y dŵr ar gyfer y cyflenwad mygu tân?

**A.** Cewch, ond bydd angen cael ein cydsyniad ysgrifenedig yn gyntaf, am y bydd angen i ni gadarnhau manyleb y pwmp a sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999.

**C.** Ymhle mae'r falf atal?

**A.** Dylid nodi bod yn rhaid i'r falf atal fod o fewn 100mm i bwynt cysylltu cangen cyflenwi'r chwistrellwr tân â'r bibellwaith cyflenwi dŵr domestig (er mwyn atal adlif neu ôl-seiffno unrhyw ferddwr). Mae hyn er mwyn atal adlif neu ôl-seiffno unrhyw ferddwr i'r cyflenwad dŵr domestig neu'r rhwydwaith cyflenwi dŵr ehangach.

**C.** Pwy sy'n gyfrifol am gynnal y falf atal?

**A.** Cyfrifoldeb perchennog y falf atal yw ei gynnal.

**C.** Sut mae mynd ati i wneud cais am gysylltiad?

**A.** Bydd angen i chi lenwi ein ffurflen gais am gysylltiad dŵr newydd, sydd ar gael ar ein gwefan. Cofiwch nodi'n glir a yw'ch cais ar gyfer anheddiad unigol neu amlddeiliadaeth, neu ar gyfer prif bibell dân bwrpasol, am ei bod hi'n bwysig ein bod ni'n gwybod hyn o'r cychwyn cyntaf.

**C.** A oes modd cynyddu'r llif a/neu bwysedd y rhwydwaith dŵr i gyd-fynd ag anghenion fy system chwistrellwr tân?

**A.** Nac oes yn anffodus, am ein bod ni'n gweithredu ein rhwydwaith dŵr yn gyson â'r Lefelau Gwasanaeth sy'n cael eu pennu gan Ofwat, sef rheoleiddiwr y diwydiant dŵr, sef pwysedd o 1.5 Bar wrth y brif bibell ddŵr a llif o 9 litr/mun.

# Oes rhagor o gwestiynau gennych neu oes angen cyngor pellach arnoch?

Os oes ragor o gwestiynau gennych am systemau chwistrellu tân domestig, gallai'r sefydliadau canlynol eich helpu chi:

BAFSA (Cymdeithas Taenellwyr Tân Awtomatig Prydain)
Richmond House
Broad Street
Ely
CB7 4AH

Ffôn: 01353 659187
E-bost: info@bafsa.org.uk
Gwe: www.bafsa.org.uk

---

Y Gymdeithas Taenellwyr Preswyl
Park Court
Brimpton
RG7 4ST

Ffôn: 0118 971 2322
Ffacs: 0118 971 3015
E-bost: info@firesprinklers.org.uk
Gwe: www.firesprinklers.org.uk